

# Fferm Solar Candwr

Diweddariad Ionawr 2026

## Ymgynghoriad Statudol

Oherwydd bod etholiadau Senedd Cymru yn digwydd ar 7 Mai 2026, bydd yr ymgynghoriad statudol yn digwydd ddechrau haf 2026.

## Cyflwyno cais cynllunio

Mae llawer iawn o waith arolygu a dylunio yn parhau i fod yn ofynnol cyn y gellir cyflwyno unrhyw gais cynllunio.  Bydd y cais yn cael ei gefnogi gan Ddatganiad Amgylcheddol (DA), ac er mwyn pennu a chytuno ar raddfa'r materion y dylid eu hystyried yn yr DA, mae'r Ymgeisydd wedi gofyn am Gyfarwyddyd Cwmpasu AEA gan Weinidog Cymru. Mae'r Ymgeisydd nawr yn aros am y Cyfarwyddyd Cwmpasu gan Weinidog Cymru. Bydd y Cyfarwyddyd Cwmpasu yn ddogfen allweddol sy'n nodi pa waith amgylcheddol y dylid ei wneud cyn y gellir cwblhau a chyflwyno cais.

Ail-hysbyswyd PEDW ym mis Rhagfyr 2025 i ymestyn y ffenestr cyflwyno ceisiadau i fis Rhagfyr 2026 o dan y broses ymgeisio DNS. Ein nod yw cyflwyno cyn mis Rhagfyr.

## Trafnidiaeth

Nid oes unrhyw benderfyniad wedi'i wneud ynghylch llwybr trafnidiaeth a ffefrir.

Yn dilyn ein cyfarfod â'r tri awdurdod lleol, rydym yn bwrw ymlaen â gwaith arolygu pellach. Bydd hyn yn parhau cyn sgyrsiau ychwanegol sydd wedi'u cynllunio gyda nhw yn y misoedd nesaf. Ar hyn o bryd, nid oes amserlen wedi'i phennu ar gyfer y cyfarfodydd hyn.

Ar hyn o bryd, rydym yn gwerthuso manteision cymharol mynd at safle'r prosiect drwy lwybrau i'r de, o'r M4 tua'r gogledd drwy Gaerllion, ac o'r A4042 i'r dwyrain o'r safle, drwy gylchfan Ysbyty Grange a Ffordd Tre-Herbet. I'r perwyl hwn, rydym wedi cynnal dadansoddiad cyfri traffig, dadansoddiad llwybr wedi'i ysgubo, ac arolygon topograffig. Rydym wrthi'n gwerthuso canlyniadau'r adroddiadau hyn ar hyn o bryd.

O ran opsiynau, rydym hefyd yn ystyried cynllun sy'n cynnwys lleihau nifer y cerbydau sy'n dod o unrhyw un cyfeiriad ac ar gyfer cael terfynau amser penodol ar gyfer mynediad dyddiol i gerbydau nwyddau trwm.

Bydd caeadleoedd adeiladu yn cael eu defnyddio o fewn y parseli tir i hwyluso dadlwytho cerbydau nwyddau trwm ar dractorau/trelars amaethyddol safonol i'w symud o fewn y safle, o fewn caeau lle bynnag y bo modd, ac yn croesi ffyrdd dim ond pan fo angen.

Caiff trefniadau penodol ar gyfer unrhyw groesfannau traffig eu datblygu hefyd a'u cyflwyno i'r cynghorau cymuned cyn yr ymgynghoriad statudol fel y cytunwyd yn flaenorol.

## Lliniaru Llifogydd

Dechreuwyd profion treiddio ddechrau mis Ionawr 2026, i fesur cyfradd suddo dŵr ym mhob darn o dir; mae'r gwaith arolygu cychwynnol wedi'i ohirio oherwydd amodau tywydd garw.

Bydd gweithgareddau'n ailddechrau cyn gynted ag y bydd amodau'n caniatáu, a bydd canfyddiadau'r astudiaethau hyn, ynghyd ag arolygon o'r cyrsiau dŵr mewnol, yn llywio datblygiad ein strategaeth draenio dŵr wyneb a lliniaru llifogydd.

## Cyfathrebu yn y Dyfodol

Rydym yn gwerthfawrogi bod cyfathrebu rheolaidd ar gynnydd y prosiect yn bwysig ac yn cydnabod hefyd y gall gwybodaeth sy'n brin o fanylion neu wybodaeth a allai fod yn destun newid yn y tymor byr achosi rhwystredigaeth a gofid.

Byddwn yn parhau i ddarparu diweddariadau misol, ond ein nod fydd rhannu gwybodaeth am eitemau gwaith penodol yn unig, unwaith y byddant wedi'u datblygu ac wedi'u llunio'n dda, cyn gynted ag y bydd y manylion hyn ar gael.

## Cysylltwch

**E-bost:**
info@candwrsolarfarm.co.uk

**Ffôn:**
01633 631890

**Ysgrifennwch:**
Freepost Grasshopper Consult